











Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust



Cymru



-  Adeiladau a/neu erddi
-  Mannau mynediad arfordir a chefn gwlad
-  Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
-  HG Gwesty Hanesyddol
-  Mannau mewn siroedd cyfagos
-  Gorllewin Canolbarth Lloegr, tudalen 274
-  Y Gogledd Orllewin, tudalen 306
-  10 milltir

I ganfod mwy o feysydd parcio arfordirol a chefn gwlad yng Nghymru, ewch i nationaltrust.org.uk/carparks

Aberdulais

ger Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot

-    

Mae Aberdulais yn un o'r safleoedd diwydiannol cynharaf ym Mhrydain, yn safle lle mae dŵr wedi rhaedru ers canrifoedd ac arloesedd wedi manteisio ar ei rym. Ymhell cyn y Chwyldro Diwydiannol, roedd dŵr Afon Dulais a'r rhaeadr yn pweru diwydiannau wrth i Aberdulais sefydlu ei hun fel canolfan ddiwydiannol arloesol. Dysgwch fwy ar ein gwefan ynghylch sut oedd y pentref bychan hwn yng nghymoedd Cymru yn defnyddio technolegau o'r radd flaenaf i lywio'r diwydiannau a newidiodd y byd; o dunplat i gopr, chwaraeodd Aberdulais ei rhan. **Llywio â lloeren:** cod post yn camgyfeirio, dilynwch yr arwyddion brown.

Mynediad:    

Am ragor o wybodaeth: 01639 636674 neu

aberdulais@nationaltrust.org.uk
 Aberdulais, ger Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot SA10 8EU
nationaltrust.org.uk/aberdulais

Bannau Brycheiniog

Powys

-   

Mae Bannau Brycheiniog wedi denu ymwelwyr ers cannoedd o flynyddoedd gyda'u copaon uchel, yn cynnwys mynydd uchaf de Prydain, sef Pen y Fan. O'r copaon poblogaidd i'r dyffrynnoedd tawel, o'r tiroedd fferm iraidd i'r coetiroedd hynafol, maent yn berffaith i'w cerdded a'u harchwilio. Heb anghofio rhaeadr uchaf De Cymru, Rhaeadr Henrhyd, a welir yn plymio 90 troedfedd i Geunant Graig Llech coediog, sy'n hafan i fwsoglau a rhedyn prin. I'r gwrthwyneb, beth am ddarganfod gweundiroedd anghysbell ac eang Tir Comin Abgwesyn ym mherffedion Cymru neu droedio'r 'Begwns' lle y ceir golygfeydd panoramig o'r Bannau Brycheiniog.

nationaltrust.org.uk

Am ragor o wybodaeth: 01874 625515 neu

brecon@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/brecon-beacons

Bwthyn Ogwen

Nant Ffrancon, Bethesda, Gwynedd LL57 3LZ

-  

Mae Bwthyn Ogwen yn swatio rhwng mynyddoedd dramatig y Carneddau a'r Glyderau, a dyma fan cychwyn nifer o lwybrau cerdded yn yr ardal. Ynddo ceir canolfan ar gyfer ein ceidwaid lleol a chanolfan addysg awyr agored. Mae gan yr adeilad eiconig hwn gysylltiad hirfaith â mynydda ac anturiaethau, ac mae amrywiaeth o lwybrau dringo a llwybrau cerdded mynyddoedd i'w cael gerllaw, yn ogystal â Lôn Las Ogwen y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

Am ragor o wybodaeth: 01248 605739 neu

ogwen@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/ogwen-cottage

Canolfan Stagbwl

Old Home Farm Yard, Stagbwl, ger Penfro, Sir Benfro SA71 5DQ

-     

Wedi'i lleoli ym mherffedion Ystad Stagbwl, mae ein Canolfan cyfeillgar i'r amgylchedd yn cynnig mynediad rhwydd i breswylwyr at Lynnoedd Bosherton, Cei Stagbwl a thraethau arobryn - yn cynnwys Barafundle a Broad Haven South - yn ogystal â safle hanesyddol Cwrt Stagbwl. Gall y ganolfan sydd newydd ei hailwampio ddal hyd at 147 o westeion, gan gynnig adeilad hyblyg a chanddo gyfleusterau modern, yn cynnwys theatr, manau cyfarfod ac ystafelloedd dosbarth. Mae'n ddelfrydol ar gyfer grwpiau, cleientiaid corfforaethol, dathliadau a gwyliau teuluol. **Sylwer:** cysylltwch â'r ganolfan i gael rhaglenni o weithgareddau, prisiau a gwybodaeth am argaeledd.

Mynediad:    

Am ragor o wybodaeth: 01646 623110 neu

stackpolecentre@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/stackpole-centre

Canolfan Ymwelwyr a Siop Tyddewi

Tŷ'r Capten, Stryd Fawr, Tyddewi, Sir Benfro SA62 6SD

Mae'r ganolfan ymwelwyr a'r siop lawn yn edrych i gyfeiriad yr Hen Groes yng nghanol Tyddewi, dinas hanesyddol leiaf Cymru. Beth am gael cipolwg ar ein casgliad manwerthu a chael sgwrs gydag un o'r tîm ynghylch archwilio Sir Benfro (uchod)? **Sylwer:** dim toiled, yn affnodus.

Am ragor o wybodaeth: 01437 720385 neu

stdavidsshop@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/st-davids-visitor-centre





Castell a Gardd Powis

Y Trallwng, Powys

Yn gaer ganoloesol i dywysogion Cymru ar un adeg, trawsnewidiwyd Castell Powis dros ganrifoedd yn gartref crand i'r teulu Herbert, gan adlewyrchu eu cyfoeth a'u statws. Mae'r ystafelloedd wedi'u haddurno gyda defnyddiau drudfawr, gwaith celf o'r radd flaenaf, dodrefn, tapestrïau a chasgliad unigryw y teulu Clive o drysorau o India a Dwyrain Asia, mae'r tu mewn yn adlewyrchu'r cyfnod Elisabethaidd hyd at y cyfnod Edwardaidd. Gyda golygfeydd ysbennydd ar draws Dyffryn Hafren, mae'r ardd gyda'r gorau ym Mhrydain. Yn dyddio'n ôl mwy na 300 o flynyddoedd, mae'n cynnwys terasau Eidalaid o'r ail ganrif ar bymtheg gydag ymylon o lysiau lliwgar ac yw anferthol wedi'u tocio, gardd

Edwardaidd ffurfiol gyda choed afalau a gwllâu rhosod sy'n ganrifoed, a choetir lle y ceir sawl coeden aruchel. **Llywio â lloeren:** mae'r cod post yn gamarweiniol, defnyddiwyd Castell Powis.

Mynediad:    

Am ragor o wybodaeth: 01938 551920 neu

powiscastle@nationaltrust.org.uk Y Trallwng, Powys SY21 8RF
nationaltrust.org.uk/powis

Castell Cilgerran

ger Aberteifi, Sir Benfro SA43 2SF 

Castell o'r drydedd ganrif ar ddeg uwchlaw Ceunant Teifi – lleoliad perffaith i fwrw ymosodiadau yn ôl. Cerddwch y caerau ac edmygwch y golygfeydd ysbennydd. **Sylwer:** dan warchodaeth Cadw – gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth: 01239 621339 neu

cilgerrancastle@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/cilgerran-castle

Castell Penrhyn a'r Ardd

Bangor, Gwynedd LL57 4HT

Castell neo-Normanaid anferth yw Castell Penrhyn, ac mae ganddo sawl stori wahanol i'w hadrodd. Wedi'i osod mewn 24 hectar (60 acer) o erddi a choetiroedd, mae'n hawlio golygfeydd godidog ar draws Eryri ac arfordir gogledd Cymru, yn berffaith ar gyfer cerddwyr, rhedwyr a'r rheiny sy'n frwd dros natur. Mae ffasâd cerrig amlwg y Castell yn cuddio mwy na'i adeiladwaith brics coch. Y tu mewn, mae moethusrwydd y cerffio a'r dodrefnu celfydd yn cuddio hanes tywyll caethwasiaeth ac anghydfod diwydiannol chwerw a newidiodd berthynas Penrhyn gyda'r gymuned leol am byth.

Mynediad:    

Am ragor o wybodaeth: 01248 353084 neu

penrhyncastle@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/penrhyn-castle

Castell Ynysgynwraidd

Ynysgynwraidd, ger Y Fenni, Sir Fynwy NP7 8UH



Olion castell o ddechrau'r drydedd ganrif ar ddeg, a adeiladwyd yn ymyl Afon Mynwy er mwyn gallu rheoli un o'r prif lwybrau o Loegr. **Sylwer:** dan warchodaeth Cadw – gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth: 01874 625515 neu

skenfritchcastle@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/skenfrith

Castell y Waun

Y Waun, Wrecsam LL14 5AF

Cafodd Castell y Waun ei gwblhau gan Roger Mortimer, un o Arglwyddi'r Gororau, yn 1310, a dyma'r castell Cymreig olaf o deyrnasiad Edward I y mae pobl yn dal i drigo ynddo hyd heddiw. Gallwch archwilio'r tyrau a'r dwnsiynau canoloesol, ymweld ag ystafelloedd cartref y teulu Myddelton sy'n dyddio i'r ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif, yn cynnwys y golchdy hanesyddol, a chlywed stori'r Arglwydd Howard de Walden, y tenant a'r polymath dylanwadol o'r ugeinfed ganrif. Mae'r gerddi gwerthfawr yn cynnwys yw wedi'u tocio, borderi blodau a chreigerddi. Ceir teras sy'n cynnig golygfeydd bendigedig o wastadeddau Swydd Gaer a Swydd Amwythig, tra y mae'r ystad fawr, a rannwyd gan y Brenin Offa, yn darparu cynefin i greaduriaid di-asgwrn-cefn prin, blodau gwyllt a choed hynafol.

Mynediad:    

nationaltrust.org.uk

Am ragor o wybodaeth: 01691 777701 neu

chirkcastle@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/chirk

Cemlyn

Ynys Môn

Mae gan arfordir y gogledd-orllewin, sy'n rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn, lannau geirwon a hardd lle y ceir creigiau, baeau bach a phentiroedd – pleser pur i gerddwyr. Gwarchodfa Natur Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yw Cemlyn, ac mae hefyd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Yn lle enwog am ei nythfa o fôr-wenoliaid pigddu, môr-wenoliaid cyffredin a môr-wenoliaid y Gogledd sy'n bridio yno, mae Bae Cemlyn yn ferw o brysurdeb adar yn y gwanwyn a'r haf. Yn ystod yr hydref a'r gaeaf mae llwybrau'r pentir yn cynnig golygfeydd godidog o'r tir a'r môr. Caiff y morlyn lled hallt ei wahanu oddi wrth y môr gan gefn hynod o raeon. **Sylwer:** mae'r toiledau agosaf ym Mae Cemlyn, 3 milltir (nid rhai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol). **Llywio â lloeren:** defnyddiwyd LL67 ODY.

Am ragor o wybodaeth: 01248 714795 neu

cemlyn@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/cemlyn

Coetir Ystad Dolaucothi

ger Pumsaint, Llanwrda, Sir Gaerfyrddin



Llu o lwybrau coetir a llwybrau aml-ddenyddwyr, gydag arwyddion gwybodaeth wrth y Mwyngloddiau Aur ac ym meysydd parcio pentref Pumsaint. **Llywio â lloeren:** defnyddiwyd SA19 8US.

Am ragor o wybodaeth: 01558 650809 neu

dolaucothi@nationaltrust.org.uk

Craflwyn a Beddgelert Dinas Oleu

ger Beddgelert, Gwynedd

1994 

Mae ystad 81 hecтар (200 acer) Craflwyn wedi'i lleoli ym mherfeddion hardd Eryri, mewn ardal sy'n llawn hanes a chwedlau. Ceir rhwydwaith o lwybrau a theithiau drwy'r coetir i'w harchwilio, ynghyd â rhaeadrau byrlymog i'w darganfod. Yng Nghraflwyn gallwch ddsygu am Dywysogion Gwynedd, cyn mentro i fyny i Ddinas Emrys gerllaw, sef man genedigaeth draig goch Cymru. O fewn milltir neu ddwy o Graflwyn, ceir teithiau cerdded gwych sy'n addas i bob gallu – o dro hamddenol drwy bentref hyfryd Beddgelert i lwybr garw'r Pysgotwr i lawr Bwlch Aberglaslyn. **Sylwer:** yn anffodus, mae Neuadd Craflwyn wedi cau, er mae croeso i'r cyhoedd ar y tir oddi amgylch. **Llywio â lloeren:** defnyddiwch LL55 4NG.

Am ragor o wybodaeth: 01766 510120 neu

craflwyn@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/beddgelert

Cwmdu

Llandeilo, Sir Gaerfyrddin

1991

Teras Sioraidd gyda thafarndy, swyddfa'r post, capel a festri. Mae'n cynrychioli pentref Cymreig gwledig o'r oes a fu. **Llywio â lloeren:** defnyddiwch SA19 7DY.

Am ragor o wybodaeth: 01558 685088 neu

cwmdu@nationaltrust.org.uk

ger Abermo, Gwynedd

1895

Rhoddodd Mrs Fanny Talbot y bryn eithiog hwn i'r Ymddiriedolaeth yn 1895 – y rhodd gyntaf i ni ei derbyn. **Sylwer:** rhywfaint o dir creigiog serth a grisiau i gyrraedd y brig.

Am ragor o wybodaeth: 01341 440238 neu

dinasoleu@nationaltrust.org.uk

Dinefwr

ger Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin

1990 

Mae tir parc hanesyddol Dinefwr, sy'n lle arbennig yng nghalon Sir Gaerfyrddin, wedi'i warchod fel Gwarchodfa Natur Genedlaethol y DU. O ddolydd gwair sy'n llawn blodau i goetir hynafol trwchus, mae'r cyfan yma i chi eu darganfod. Mae'r dramwyfa hir, droellog yn cynnig golygfeydd o'n gwartheg Gwynion, prin, yn pori ar y tir, fel y maent wedi'i wneud ers 1,000 o flynyddoedd. Mae Tŷ Dinefwr yn dŷ gwledig anffurfiol, ymarferol sydd ag arddangosfeydd newidiol yn pwysleisio agweddau gwahanol ar hanes yr eiddo. Ymlaciwch yn yr ardd, sylwi ar geirw yn crwydro, yna cerdded ôl troed tywysogion hynafol Cymru at y castell. **Sylwer:** Yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt sy'n berchen ar Gastell Dinefwr ac mae dan warchodaeth Cadw. **Llywio â lloeren:** Defnyddiwch Dinefwr, dim cod post.

Access: 

Am ragor o wybodaeth: 01558 824512 neu


dinefwr@nationaltrust.org.uk
Llandeilo, ger Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin
SA19 6RT
nationaltrust.org.uk/dinefwr

Erddig

ger Wrecsam, Wrecsam

1973 

Dyma hafan o harddwch naturiol a noddfa fodern i lesiant. Mae parc pleser 485 hecтар (1,200 acer) Erddig, a gynlluniwyd gan William Emes, yn croesawu cerddwyr (a'u cyfeillion pedair troed), rhedwyr ar ddechrau, cerddwyr Nordig a phawb sydd am brofi hwb naturiol yn yr awyr agored bendigedig. Yn y canol, uwchlaw Afon Clywedog, mae'r tŷ – adeilad sy'n dal i oroesi ar ôl cael ei achub rhag adfeilio yn y 1970au. Cewch glywed hanes y berthynas unigryw a oedd gan y teulu gyda'u gweision a'u morwynion – mae casgliad mawr o luniau'r gweision a'r morwynion, ynghyd ag ystafelloedd a ddiogelwyd yn ofalus, yn darlunio'u bywydau dros y cenedlaethau, lle y trysorir y llif a'r rhaw lawn gymaint ag arian a sidan. Y tu allan, ymlaciwch mewn gardd gaerog o'r ddeunawfed ganrif wedi'i hadnewyddu, lle y ceir nodweddion dŵr tawel, coed ffrwythau arweiniedig a pherllannau lle y tyf mwy na 180 o wahanol fathau o afalau. **Llywio â lloeren:** peidiwch â'i ddefnyddio, dilynwch yr arwyddion brown.

Mynediad: 

Am ragor o wybodaeth: 01978 355314 neu

erddig@nationaltrust.org.uk
Erddig, ger Wrecsam, Wrecsam LL13 0YT
nationaltrust.org.uk/erddig

Freshwater West a Fferm Gupton

ger Castellmartin, Sir Benfro

1976 

Mae Freshwater West wedi'i lleoli ar ran wyllt o'r arfordir sy'n berffaith ar gyfer chwaraeon dŵr ac anturiaethau tywodlyd. Y tu hwnt i'r traeth fe welir Fferm Gupton, ein gwersyllfa, caban syrffio a chanolfan i ymwelwyr. Dihangfa wledig

nationaltrust.org.uk

berffaith i eneidiau mentrus a phobl sy'n dotio at natur; ewch i wyllo bywyd gwyllt, troedwch lwybrau cerdded, gwnewch yn fawr o'r arfordir a chysgwrch dan y sêr. **Llywio â lloeren:** ar gyfer Fferm Gupton defnyddiwch SA71 SHW.


Mynediad: 

Am ragor o wybodaeth: 01646 623110 neu

freshwater@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/freshwater-west

Gardd Bodnant

Tal-y-cafn, ger Bae Colwyn, Conwy LL28 5RE

1949 

Sefydlwyd yr ardd restredig Gradd I hon yn nbroedfrynau Eryri, gyda chasgliadau planhigion hynafol a golygfeydd trawiadol o'r mynyddoedd, yn 1874 gan yr entrepreneur Fictoraidd, Henry Pochin. Mae pum cenhedlaeth o'r teulu wedi mynd ati i drawsnewid y bryn 32-hecтар (80 acer) hwn yn Nyffryn Conwy gyda choed a llwyni prin o bob cwr o'r byd. Ers 1949 mae'r ardd wedi'i meithrin ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Gallwch fwynhau terasau Eidalaid gyda gwllâu blodau ffurfiol, pyllau a lloriau, borderi llwyni anffurfiol, coedydd, dolydd a glynnoedd glan yr afon lle y ceir rhaeadrau a chonwydd aruchel. Daw pob tymor â rhyfeddodau newydd – magnolias a rhododendron yn y gwanwyn, rhosynnau a lilïau'r-dŵr yn yr haf, lliwiau bendigedig y dail yn yr hydref a Gardd Aeafol drawiadol. **Sylwer:** llwybrau serth a dŵr agored.

Mynediad: 

Am ragor o wybodaeth: 01492 650460 neu

bodnantgarden@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/bodnant-garden

Gardd Goedwig Colby

ger Llanrath, Sir Benfro SA67 8PP

1980

Tro byr o'r traeth, mae'r dyffryn coediog dirgel hwn, gyda'i ardd gudd a'i orffennol diwydiannol, yn lle gwych i chwarae. Mae yno goed wedi syrthio y gellir eu dringo, siglenni rhaff a phethau annisgwyl ym mhob man. Daw'r gwanwyn â chlychau'r gog, camelias, rhododendron ac asaeleas, tra y mae'r ardd gaerog yn cynnig lliw, tawelwch a lle i'r enaid gael llonydd drwy gydol y flwyddyn. Ceir llwybrau drwy'r coetir, nentydd troellog, a phyllau â cherrig sarn a phontydd wedi'u gwneud o foncyffion yn y ddôl blodau gwyllt, ac mae'r holl ddyffryn yn ferw o fywyd gwyllt. **Sylwer:** yn anffodus, nid yw'r tŷ ar agor.

Mynediad:

Am ragor o wybodaeth: 01646 623110 neu

colby@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/colby-woodland-garden

Gerddi Dyffryn

Sant Nicholas, Bro Morgannwg CF5 6SU

2013

Yn ardd ar gyfer pob tymor, mae Dyffryn yn cael ei hadnewyddu i'w dychwelyd i'w hysblennydd Edwardaidd. Mae cymaint i'w ddarganfod. Mae llwybrau troellog yn arwain at ystafelloedd gardd wedi'u dylunio'n gelfydd, lawntydd mawreddog a gardd goed drawiadol. Mae'r gerddi muriog yn llawn cynnyrch ffres ac mae'r tŷ gwyr anferth yn cynnwys casgliad trawiadol o gacti a thegeirianau prin. Cynlluniwyd y gerddi gan y pensaer tirwedd enwog Thomas Mawson er mwyn gwireddu gweledigaeth gynnar y plannwr Reginald Cory ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Bu i'r cyfoeth enfawr a gasglodd tad Reginald, John, gyda'r busnes teuluol, daflu'r Corys i fyd y boneddigion. Mae eu cartref, Tŷ Dyffryn, adeilad rhestredig Gradd II*, yn sefyll yn nghanol y tiroedd.

Mynediad:

Am ragor o wybodaeth: 02920 593328 neu

dyffryn@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/dyffryn-gardens

Hafod y Llan

ger Beddgelert, Gwynedd

1998

Hafod y Llan, yn nyffryn hardd Nant Gwynant, yw'r fferm fwyaf a redir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Yn ymestyn o lawr y dyffryn i gopa'r Wyddfa, mae rhan o'r fferm yn Warchodfa Natur Genedlaethol ddynodedig yn ogystal â Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae croeso i ymwelwyr grwydro'r llwybrau lu sy'n croesi'r dirwedd unigryw hon. **Sylwer:** gan fod hon yn fferm weithiol, ar droed yn unig y gellir mynd ar y buarth. **Llywio â lloeren:** defnyddiwch LL55 4NQ.

Am ragor o wybodaeth: 01766 890473 neu

hafodyllan@nationaltrust.org.uk

Llanerchaeron

Ciliau Aeron, ger Aberaeron, Ceredigion SA48 8DG

1989

Ystad hunangynhaliol mân uchelwr Cymreig o'r ddeunawfed ganrif. Y fila, a gynlluniwyd yn y 1790au, yw'r enghraifft fwyaf cyflawn o waith cynnar John Nash. Mae ganddi ei thŷ cwrw ei hun, gyda llaethdy, golchdy, bragdy a thŷ halltu, sy'n cynnig profiad i'f fyny ac i lawr y grisiau', fel petai. Gellir mwynhau teithiau cerdded tawel o amgylch y gerddi cegin caerog, y parc difyrrwch, y llyn addurniadol, y coetir a'r tir parc, tra y mae Home Farm yn cynnwys amrywiaeth drawiadol o dai allan traddodiadol, llawn awyrgylch. Ar y fferm weithiol ceir defaid Llanwenog a moch Cymreig prin, yn ogystal ag ieir, gwyddau a thyrwcn.

Mynediad:

Am ragor o wybodaeth: 01545 570200 neu

llanerchaeron@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/llanerchaeron

Martin's Haven

ger Marloes, Sir Benfro

1981

Mae'r pentir eithriadol o wyllt hwn gyda golygfeydd godidog o Fae Sain Ffraid, hefyd yn fynedfa i Ynys Sgomer. I gael diwrnod gwirioneddol amrywiol a chyffrous, beth am gyfuniad o wyllo bywyd gwyllt y môr a darganfod olion aneddiadau hynafol? **Sylwer:** toiledau agosaf wrth y llythra. **Llywio â lloeren:** defnyddiwch SA62 3BJ.

Mynediad:

Am ragor o wybodaeth: 01646 623110 neu
martinshaven@nationaltrust.org.uk

Mwyngloddiau Aur Dolaucothi

Pumsaint, Llanwrda, Sir Gaerfyrddin SA19 8US

1941

Mwyngloddiau aur a allai adrodd gwerth canrifoedd o straeon yn dyddio'n ôl i oes y Rhufeiniaid, wedi'u hamgylchynu â theithiau cerdded arbennig yn y coetir. Ewch ar daith dywysedig o gwmpas yr unig fwynglawdd aur Rhufeinig y gwyddys amdano. A allwch chi weld arwyddion eu hen ddulliau mwyngloddio aur? O'r maes parcio yn y mwyngloddiau aur, gallwch archwilio coetiroedd hynafol, dolydd blodau gwylltion, ffrydiau mynydd ac ucheldir pori ar ein llwybrau cerdded aml-ddefnyddwyr. **Sylwer:** llethrau serth, esgidiau cryfion yn hanfodol. Taldra lleiaf 1 metr. Ni chaniateir cario plant ar y teithiau tanddaearol.

Mynediad:

nationaltrust.org.uk

Am ragor o wybodaeth: 01558 650809 (mwyngloddiau). 01558 650365 (safle carafanau) neu

dolaucothi@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/dolaucothi

Neuadd a Sba Bodysgallen

Ffordd y Cymry Brenhinol, Llandudno, Conwy LL30 1RS

2008

Mae gan y tŷ rhestredig Gradd I hwn o'r ail ganrif ar bymtheg, a leolir mewn 89 hectar (220 acer) o dir parc, olygfeydd godidog o Gastell Conwy ac Eryri. Mae'r gerddi rhamantaidd, sydd wedi ennill gwobrau am y modd y cawsant eu hadfer, yn cynnwys llawr prin sy'n llawn o lysiau peraroglus, yn ogystal â nifer o ffugadeiladau, rhaeadr, gardd gaerog a gerddi rhosynnau ffurfiol. Y tu hwnt i'r rhain, mae'r tir parc yn cynnig milltiroedd o lwybrau ysblennydd a golygfeydd tua'r arfordir. **Sylwer:** mynediad ar gyfer gwesteion y gwesty'n unig, gan gynnwys gwesteion ar gyfer cinio, te prynhawn a swper, a'r sba. Croesewir plant hŷn na 6 oed.

Am ragor o wybodaeth: 01492 584466 neu

info@bodysgallen.com
bodysgallen.com

Penbryn

ger Sarnau, Aberteifi, Ceredigion 1967

Un o gyfrinachau gorau Ceredigion, mae'r cildraeth diarffordd hwn wedi'i leoli i lawr lonydd deiliog sydd wedi'u hymylu gan gloddiau toreithiog o flodau. **Llywio â lloeren:** defnyddiwch SA44 6QL.

Am ragor o wybodaeth: 01545 570200 neu

penbryn@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/penbryn

Pennard, Pwll Du a Dyffryn Llandeilo Ferwallt

ger Southgate, Abertawe

1954   

Clogwyni trawiadol, ogofâu lle y darganfuwyd olion mammoth, adar prin, afon danddaearol, clwydfannau ystumod, mwyngloddio am arian a phlwm, coetir hynafol, smyglo calchfaen a chloddio amdano – i enwi dim ond rhai o ryfeddodau'r ardal hon. Hefyd, ceir nifer o nodweddion archaeolegol a dwy ogof bwysig – sef Bacon Hole a Minchin Hole. **Sylwer:** oherwydd y llanw terfod peryglus, ni chynghorir nofio ym Mae'r Tri Chlogwyn. **Llywio â lloeren:** defnyddiwch SA3 2DH.

Mynediad: 

Am ragor o wybodaeth: 01792 390636 neu

pennard@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/pennard-pwll-du-and-bishopston-valley

Pen-y-fâl a Dyffryn Wysg

ger Y Fenni, Sir Fynwy

1936   

Dewch i weld golygfeydd godidog ar draws Sir Fynwy a'r gororau o gopaon Pen-y-fâl ac Ysgryd Fawr. Neu beth am ddod i weld y newidiadau tymhorol yn y coetir hynafol sydd o boptu eu llethrau. Neu, ewch am dro drwy dir parc Cleidda a Dyffryn Wysg – perffaith ar gyfer picnics neu deithiau cerdded byr. **Sylwer:** dim toiled, yn anffodus. Nid yw pob maes parcio'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (codir tâl, yn cynnwys ar aelodau).

Am ragor o wybodaeth: 01874 625515 neu

Plas yn Rhiw

Rhiw, Pwllheli, Gwynedd LL53 8AB

1952   

Yn sefyll ar fryn sy'n edrych dros Fae Ceredigion, mae Plas yn Rhiw yn faenordy hardd o'r unfed ganrif ar bymtheg, gydag ychwanegiadau o'r cyfnod Sioraidd. Cafodd y tŷ ei achub rhag esgeulustod a'i atgyweirio'n ofalus gan y tair chwaer Keating, a brynodd y tŷ yn 1938. Mae'r golygfeydd o'r tiroedd a'r gerddi ar draws y bae ymhlith y rhai mwyaf ysblennydd ym Mhrydain. Mae'r ardd yn cynnwys nifer o lwyni a choed blodeuol hardd, ynghyd â gwlaù wedi'u fframio gyda gwrychoedd boc a llwybrau glaswelltog – pleser pur, ni waeth be fo'r tywydd.

Mynediad:   

Am ragor o wybodaeth: 01758 780219 neu

plasynrhiw@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/plas-yn-rhiw

Pont Grog Conwy

Conwy LL32 8LD

1965  


Cafodd y bont grog urddasol hon, gyda'i tholldy bach sydd wedi'i atgyweirio, ei chynllunio gan Thomas Telford yn y 1820au, a saif gerllaw Castell Conwy. Wedi'i chuddio rhwng pont reilffordd Stephenson a'r bont ffordd fodern, mae wedi llwyddo i gadw llawer o'r dyluniad a'r manylion gwreiddiol y mae ei brawd mawr, Pont Menai, wedi'u colli. **Sylwer:** dim toiled, yn anffodus.

Am ragor o wybodaeth: 01492 573282 neu

conwybridge@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/conwy-suspension-bridge

Porthdinllaen

Morfa Nefyn, Gwynedd

1994 

Mae'r hen bentref pysgota hwn yn drysor gwirioneddol. Wedi'i leoli ym mhen pellaf rhimyn tenau o dir sy'n ymestyn i Fôr Iwerddon, mae ei ddyfroedd cysgodol clir yn llepian yn erbyn tai cerrig cadarn. Gallwch wyllo pysgotwyr yn dod â dalfa'r diwrnod i'r tir, wrth ymlacio gyda diod yn nhafarndy'r Tŷ Coch. Yn yr haf gallwch weld y morwellt toreithiog o rywogaethau oddi ar gefn padflwrdd – a chael hwyl wrth geisio sefyll. **Sylwer:** Mae pentref Porthdinllaen oddeutu 1 milltir o'r maes parcio agosaf; dim mynediad i gerbydau. **Llywio â lloeren:** defnyddiwch LL53 6DA.

Mynediad: 

Am ragor o wybodaeth: 01758 703810 neu

porthdinllaen@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/porthdinllaen

Porth Meudwy

ger Aberdaron, Gwynedd

1990 

Does unlle'n cyfleu hanfod yr ardal cystal â'r cildraeth cysgodol hwn ar arfordir gwyllt a chreigiog i'r gorllewin o Aberdaron. O'r fan hon y teithiodd pererinion i Ynys Enlli. Heddiw, mae pysgotwyr yn dal i ddod â'u dalfa dyddiol i'r cildraeth. Cofiwch gadw eich llygaid ar agor am gychoed unigryw Aberdaron: cychod pren bach wedi'u dylunio i ddawnsio'n sionc o don i don ar hyd yr arfordir creigiog. **Sylwer:** dim toiled, yn anffodus. **Llywio â lloeren:** defnyddiwch LL53 8DA.

Am ragor o wybodaeth: 01758 703810 neu

porthmeudwy@nationaltrust.org.uk

Porth y Swnt

Henfaes, Aberdaron, Pwllheli, Gwynedd LL53 8BE

2010  

Mae'r ganolfan ddehongli gyffrous hon, yng nghanol pentref pysgota prydferth Aberdaron, yn taflu goleuni ar ddiwylliant, treftadaeth ac amgylchedd unigryw Llŷn. Gallwch weld yr optig a ddefnyddid ers talwm yng ngoleudy Ynys Enlli, dilyn ôl troed pererinion ar daith ar draws y Swnt yn y pod fideo, gweld beth sydd gan geidwaid Llŷn ar y gweill, a throï eich myfyrdodau'n farddoniaeth yn y Môr o Eiriau.

Mynediad:   

Am ragor o wybodaeth: 01758 703810 neu

porthyswnt@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/porth-y-swnt

Porthor

Aberdaron, Gwynedd  

Mae'r traeth bendigedig hwn yn enwog am ei 'dywod chwibanog' a'i ddyfroedd disglair. Mae'r chwibanu'n digwydd gan fod y gronynnau tywod ar y traeth mor fân – perffaith ar gyfer adeiladu cestyll tywod. Os nad yw cestyll tywod a thorheulo'n mynd â'ch bryd, beth am roi cynnig ar syrffio? Mae'r môr yn y fan hon yn berffaith. Hefyd, mae Llwybr Arfordir Cymru yn arwain i'r ddau gyfeiriad o'r maes parcio. **Sylwer:** mae'r toiled agosaf yn y maes parcio. **Llywio â lloeren:** defnyddiwch LL53 8LG.

Mynediad: 

Am ragor o wybodaeth: 01758 703810 neu

porthor@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/porthor

Rhosili ac Arfordir De Gŵyr

ar Benrhyn Gŵyr, Abertawe

1933     

Gyda 3 milltir o dywod euraid arobryn a golygfeydd arfordirol ysbennydd, lleolir Rhosili ym mhen pellaf penrhyn bendigedig Gŵyr. Mae'n ganolfan berffaith ar gyfer archwilio arfordir arbennig De Gŵyr – gyda'r rhan fwyaf ohono dan reolaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Ceir yno system ganoloesol hanesyddol ac amgylcheddol bwysig ar gyfer ffermio lleiniau o dir a elwir yn The Vile, ynys lanwol adnabyddadwy Pen Pyrod, gwrthgloddiau o'r Oes Haearn, bywyd gwylt a daeareg nodedig, ynghyd â chwedlau, llongdrylliadau a storïau, mae cymaint i'w weld. Ar ôl ymweld â Rhosili unwaith, fe fydd yn eich calon am byth. **Sylwer:** grisiau serth a llethr at y traeth. **Llywio â lloeren:** defnyddiwch SA3 1PR.

Mynediad:   

Am ragor o wybodaeth: 01792 390707 neu

rhosili@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/rhosili-and-south-gower-coast

Segontium

Caernarfon, Gwynedd 

Caer a adeiladwyd i amddiffyn Ymerodraeth Rhufain rhag llwythau gwrthryfelgar. **Sylwer:** dan warchodaeth Cadw – gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. Nid amgueddfa'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol mohoni. **Llywio â lloeren:** defnyddiwch LL55 2LN.

Stagbwl

ger Penfro, Sir Benfro

1976     

Arferai fod yn ystad ysbennydd a oedd yn ymestyn at rai o'r llecynnau arfordirol harddaf yn y byd, yn cynnwys Broad Haven South, Bae Barafundle a Chei Stagbwl. Heddiw, mae Stagbwl yn Warchodfa Natur Genedlaethol a gaiff ei chydabod oherwydd ei fflora a'i ffawna toreithiog; mae Llynnoedd Bosherton yn enwog am eu sioe fendigedig o liliau, a'r dyfrgwn sy'n trigo yno; ac mae clogwyni dramatig Pentir Stagbwl yn wych ar gyfer gwyllo bywyd gwylt. Ymhellach, gallwch ddatgelu hanes a threftadaeth y lle arbennig hwn; mae hen safle Cwrt Stagbwl a Choedwig Lodge Park gerllaw yn datgelu'r hanes sydd wrth wraidd y dirwedd ddyluniedig ysbennydd hon. **Llywio â lloeren:** ar gyfer Cei Stagbwl, defnyddiwch SA71 5LS; Broad Haven South, SA71 5DR; Llynnoedd Bosherton, SA71 5DR; Cwrt Stagbwl, SA71 5DE.

Mynediad:   

Am ragor o wybodaeth: 01646 623110 neu

stackpole@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/stackpole

Traeth a Chors Marloes

Marloes, Sir Benfro

1941   

Yn drysor cudd ar ymyl gorllewinol Sir Benfro, mae traeth Marloes yn llain hir o draeth sy'n berffaith ar gyfer ymdrochi. Ymunwch â ni ar gyfer glanhau'r traeth, sylwi ar fywyd morol a mynd am dro ar ben y clogwyn gan gerdded ar hyd y llwybr arfordirol. Mae gwylpdir, Cors Marloes, ymhellach i mewn i'r tir, yn ferw o adar. Dewch â binocwlars ac ewch yn nes at natur yn ein cuddfannau gwyllo adar. **Sylwer:** toiledau

agosaf 164 llath ar hyd y llwybr, heibio caffi a byncws Runwayskiln. **Llywio â lloeren:** defnyddiwch SA62 3BH.

Mynediad: 

Am ragor o wybodaeth: 01646 623110 neu

marloessands@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/marloes-sands

Traeth Llanbedrog

Llanbedrog, Gwynedd

2000 

Yn enwog am ei gytiau glan môr lliwgar, mae cenedlaethau lu wedi mwynhau'r darn bendigedig hwn o draeth. Mae'r dyfroedd cysgodol, y golygfeydd godidog o Fae Ceredigion, y coedydd cyfagos a'r dirwedd ysgythrog yn ei wneud yn un o drysorau gwirioneddol Llŷn. **Sylwer:** toiled (nid un yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol). **Llywio â lloeren:** defnyddiwch LL53 7TT.

Am ragor o wybodaeth: 01758 703810 neu

llanbedrog@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/llanbedrog-beach

Tŵr Paxton

Llanarthne, ger Dryslwyn, Sir Gaerfyrddin

1965

Gelwir Tŵr Paxton yn 'Golwg y Byd' a dywedir bod modd gweld saith gwlad ohono. **Sylwer:** dim toiled, yn anffodus. **Llywio â lloeren:** defnyddiwch SA32 8HX.

Am ragor o wybodaeth: 01558 823902 neu

paxtonstower@nationaltrust.org.uk

Tŷ Aberconwy

Stryd y Castell, Conwy LL32 8AY  

Dyma'r unig dŷ masnachwr canoloesol yng Nghonwy i orosi hanes cythryblus y dref gaerog dros saith canrif. Mae ei hanes yn cynnwys siop goffi, gwesty dirwest a becws, yn ogystal â bod yn gartref i fasnachwyr a masnachwyr ar y môr. **Sylwer:** toiledau agosaf 50 llath. Grisiau i bob rhan o'r tŷ.

Mynediad: 

Am ragor o wybodaeth: 01492 592246 neu





aberconwyhouse@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/aberconwy

Tŷ a Gardd Plas Newydd

Llanfairpwll, Ynys Môn LL61 6DQ

1976     

Wedi'i leoli'n berffaith ar lan Afon Menai gyda golygfeydd godidog o Eryri ac arfordir Ynys Môn, mae Plas Newydd wedi'i amgylchynu gan erddi rhestredig Gradd I: Gardd Deras Eidalaid, Gardd Rhododendron, a Gardd Goed Awstraliaidd. Wedi'i drawsnewid yn gartref teuluol gan 6ed Arglwydd Marcwis Ynys Môn yn ystod y 1930au, mae'n gartref i furlun enwog 58 troedfedd Rex Whistler a llu o weithiau celf. Gallwch ddarganfod mwy am y Marcwis 1af a'i yrfa filwrol ac am fywyd y 5ed Marcwis lliwgar. Cewch fwynhau gweithgareddau awyr agored i bob oed, gan gynnwys y tŷ yn y coed wedi'i adeiladu â llaw, cwrs golff Frisbee™, maes chwarae antur a'r gwiwerod coch preswyl.

Mynediad:    

Am ragor o wybodaeth: 01248 714795 neu

plasnewydd@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/plas-newydd

Tŷ Isaf

Beddgelert, Gwynedd LL55 4YA

1985  

Yn ferw o gymeriad, Tŷ Isaf yw'r tŷ hynaf ym Meddgelert. Gallwch weld tu blaen yr adeilad rhestredig Gradd II hwn o'r ail ganrif ar bymtheg yng nghalon y pentref, ac mae wedi cyflawni sawl swyddogaeth dros y canrifoedd – o fod yn dafarndy i fod yn dŷ fferm ac, yn awr, yn siop.

Am ragor o wybodaeth: 01766 510120 neu

tyisaf@nationaltrust.org.uk

Tŷ Mawr Wybrnant

Penmachno, Betws-y-coed, Conwy LL25 0HJ

1951  

Tŷ fferm cyffredin o'r unfed ganrif ar bymtheg a chanddo arwyddocâd diwylliannol enfawr. Man genedigaeth yr Esgob William Morgan – sicrhaodd ei waith diflino'n cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg dros gyfnod o 10 mlynedd barhad yr iaith. Mae'r tŷ hwn wedi'i leoli ar yr hen lwybr porthmyn ac mae sawl llwybr cerdded i'w cael yn y dyffryn. **Sylwer:** mynediad drwy ffordd gul o Benmachno. **Llywio â lloeren:** peidiwch â'i ddefnyddio, dilynwch yr arwyddion brown. Dim mynediad o'r A470.

Mynediad:   

Am ragor o wybodaeth: 01766 510120 neu

tymawrwybrnant@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/ty-mawr-wybrnant

Tŷ'r Masnachwr Tuduraidd

Bryn y Cei, Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro SA70 7BX

1937 

Dros 500 mlynedd yn ôl, pan oedd Dinbych-y-pysgod yn borthladd masnachu prysur, adeiladodd masnachwr y tŷ tri llaw hwn i fyw ynddo a masnachu ohono. Mae'r adeilad wedi'i ddodrefnu â replicâu cerfedig cain o ddodrefn a llenni lliwgar sy'n ail-greu awyrgylch bywyd yn Ninbych-y-pysgod yn yr oes Duduraidd. **Sylwer:** dim toiled, yn anffodus.

Mynediad: 

Am ragor o wybodaeth: 01646 623110 neu





tudormerchantshouse@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/tudor-merchants-house

Tŷ Tredegar

Casnewydd NP10 8YW

2012   

Mae Tŷ Tredegar a'r teulu Morgan wedi bod yn rhan bwysig o gymuned Casnewydd ers dros 500 mlynedd. Llwydda straeon diddorol am ddewrder adeg y rhyfel, anghydfod ynghylch etifeddiaeth, tywysogesau Rwsiaidd a'r ystod eang o ddylanwad i greu darlun byw o gartref a oedd â'r bwriad o greu argraff a difyr. Mae'r gerddi ffurfiol bach, ond cain, yn talu teyrnged i fywyd yn Nhŷ Tredegar. **Llywio â lloeren:** defnyddiwch 'Pencarn Way' yn ogystal â'r cod post.

Mynediad:    

Am ragor o wybodaeth: 01633 815880 neu

tredegar@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/tredegar-house

Y Carneddau a'r Glyderau

Nant Ffrancon, Bethesda, Gwynedd

1951  



Mae'r ardal fynyddig 8,498 hectar (21,000 acer) hon yn cynnwys Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal, sy'n enwog am ei daeareg a'i phlanhigion Arctig-Alpaidd, fel lili'r Wyddfa, sy'n blanhigyn prin. Ceir naw o ffermydd tenant ar yr ucheldir a naw copa sy'n uwch na 3,000 troedfedd, yn cynnwys Tryfan, lle y bu Edmund Hillary yn hyfforddi cyn iddo ddringo Everest. Mae'r ardal yn gartref i amrywiaeth o fywyd gwylt, yn cynnwys dyfrgwn, merlod fferal ac adar prin, fel mwyalchen y mynydd a llinos y mynydd. Mae'r llwybrau cerdded 60 milltir o hyd yn denu mwy na 500,000 o gerddwyr bob blwyddyn, tra mae'r tirweddau llwm, ffotogenig yn boblogaidd ymhlith artistiaid. **Sylwer:** tir mynyddig ac anodd – dewch ag offer ac eitemau addas gyda chi a gwiriwch ragolygon y tywydd. Codir tâl am barcio ym meysydd parcio'r Parc Cenedlaethol. **Llywio â lloeren:** defnyddiwch LL57 3LZ.

Am ragor o wybodaeth: 01248 605739 neu

carneddau@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/carneddau-and-glyderau

Y Cymin

Trefynwy, Sir Fynwy NP25 3SF

1902  

Cyfle i fwynhau golygfeydd panoramig y Bannau Brycheiniog a Dyffryn Gwy; golygfeydd y dotiodd yr Arglwydd a'r Arglwyddes Hamilton yn lân arnynt pan ymwelsant â'r tŷ gwledda Sioraidd hwn a Theml y Llynges yn 1802. Er bod y Tŷ Crwn wedi cau, ceuwch fwynhau trofeydd hyfryd yng nghoedydd a'r parc difyrwch, yn berffaith ar gyfer picnics. **Sylwer:** dim toiled, yn anffodus. Mynediad at y maes parcio drwy lôn sengl droellog serth gyda manau mynd heibio.

nationaltrust.org.uk

Mynediad:   

Am ragor o wybodaeth: 01874 625515 neu

kymin@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/kymin

Y Mwnt

ger Aberteifi, Ceredigion

1963 



Bae diarffordd hardd gyda thraeth tywodlyd – perffaith ar gyfer gwyllo dolffiniaid, morloi a bywyd gwylt rhyfeddol o fath arall. **Sylwer:** grisiau serth at y traeth. **Llywio â lloeren:** defnyddiwch SA43 1QH.

Am ragor o wybodaeth: 01545 570200 neu

mwnt@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/mwnt

Ystad Dolmelynlyn

Ganllwyd, ger Dolgellau, Gwynedd

1936  

Ystad 696 hectar (1,719 acer), yn cynnwys coetir, dwy fferm denant a Neuadd Dolmelynlyn sy'n adeilad rhestredig Gradd II, gyda llyn addurniadol a thir parc. Ceir rhwydwaith o lwybrau i'w harchwilio, gyda'r uchafbwyntiau'n cynnwys y Rhaeadr Ddu drawiadol, adfeilion mwyngloddiau aur Cefn Coch a choetiroedd derw sy'n doreithiog o fywyd gwylt. **Sylwer:** Gwesty preifat yw Neuadd Dolmelynlyn, nid adeilad y gellir talu i fynd i mewn iddo. **Llywio â lloeren:** defnyddiwch LL40 2TF.

Am ragor o wybodaeth: 01341 440238 neu

dolmelynlyn@nationaltrust.org.uk

Ystad Southwood

Niwgwyl, Y Garn, Sir Benfro



Mae Ystad Southwood yn dirwedd dragwyddol o ddyffrynnoedd coediog, caeau blodeuog a chlogwyni ysgythrog, ac mae'n llawn golygfeydd annisgwyl. Dilynwch y llwybrau cerdded ag arwyddbyst er mwyn archwilio'r gorau sydd gan yr arfordir a'r ardal wledig i'w gynnig; chwiliwch am fflora a ffawna a dysgwch sut yr ydym yn gweithio'n galed i ddiogelu'r lle arbennig hwn. **Llywio â lloeren:** ar gyfer maes parcio Fferm Southwood, defnyddiwch SA62 6AR; ar gyfer maes parcio Maidenhall, defnyddiwch SA62 6BD.

Mynediad:

Am ragor o wybodaeth: 01646 623110 neu

southwoodestate@nationaltrust.org.uk
nationaltrust.org.uk/southwood-estate

Meysydd parcio ychwanegol ar arfordir ac yng nghefn gwlad Cymru

Bannau Brycheiniog
Cwm Gwdi LD3 8LE

Ceredigion
Y Mwnt SA43 1QH
Penbryn SA44 6QL

Sir Fynwy
Ysgyryd Fawr NP7 8AP

Pen Llŷn
Uwchmynydd LL53 8DD

Sir Benfro
Broad Haven South SA71 5DR
Llynnoedd Bosherton SA71 5DR
Porth Clais SA62 6RR

Eryri
Cregennan LL39 1LX
Nantmor LL55 4YG

Mynegai

A

Aberdulais

3

M

Martin's Haven
Mwyngloddiau Aur Dolaucothi

9

9

B

Bannau Brycheiniog
Bwthyn Ogwen

3

3

N

Neuadd a Sba Bodysgallen

9

C

Canolfan Stagbwl
Canolfan Ymwelwyr a Siop Tyddewi
Castell a Gardd Powis
Castell Cilgerran
Castell Penrhyn a'r Ardd
Castell Ynysgynwraidd
Castell y Waun
Cemlyn
Coetir Ystad Dolaucothi
Craflwyn a Beddgelert
Cwmdu

3

4

4

4

4

4

5

5

5

5

6

6

P

Penbryn 9
Pennard, Pwll Du a Dyffryn Llandeilo Ferwallt 10
Pen-y-fâl a Dyffryn Wysg 10
Plas yn Rhiw 10
Pont Grog Conwy 10
Porthdinllaen 11
Porth Meudwy 11
Porth y Swnt 11
Porthor 11

R

Rhosili ac Arfordir De Gŵyr

12

D

Dinas Oleu
Dinefwr

6

6

S

Segontium
Stagbwl

12

12

E

Erddig

7

T

Traeth a Chors Marloes 12
Traeth Llanbedrog 13
Tŵr Paxton 13
Tŷ Aberconwy 13
Tŷ a Gardd Plas Newydd 13
Tŷ Isaf 14
Tŷ Mawr Wybrnant 14
Tŷ'r Masnachwr Tuduraidd 14
Tŷ Tredegar 14

F

Freshwater West a Fferm Gupton

7

G

Gardd Bodnant
Gardd Goedwig Colby
Gerddi Dyffryn

7

8

8

H

Hafod y Llan

8

Y

Y Carneddau a'r Glyderau 15
Y Cymin 15
Y Mwnt 15
Ystad Dolmelynlyn 15
Ystad Southwood 16

L

Llanerchaeron

8